OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 1172

## Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Darpariaethau Arbed a Darpariaethau Trosiannol) 2022

### RHAN 5

Gwelliannau

**Darpariaethau arbed: gwelliannau tenant diogel**

**11.**—(1) Mae'r darpariaethau yn y rheoliad hwn yn cael effaith er gwaethaf y diwygiadau a wneir gan Reoliadau Canlyniadol 2022 a Rheoliadau Canlyniadol Is-ddeddfwriaeth 2022.

(2) Mae adrannau 97(1) a (3)(**1**) (cydsyniad yn ofynnol ar gyfer gwelliannau gan denant), 98 (darpariaethau o ran cydsyniadau sy'n ofynnol gan adran 97), 99 (cydsyniad amodol ar gyfer gwelliannau) a 100(**2**) (pŵer i ad-dalu cost gwelliannau tenant) o Ddeddf 1985 yn parhau i gael effaith ar ôl y diwrnod penodedig mewn perthynas â chontract diogel wedi ei drosi, fel yr oeddent yn cael effaith yn union cyn y diwrnod hwnnw mewn perthynas â thenantiaeth ddiogel, ond dim ond pan fo cais am gydsyniad i wella wedi ei wneud gan y tenant cyn y diwrnod penodedig (pa un a roddir cydsyniad o'r fath cyn neu ar ôl y diwrnod hwnnw).

**Darpariaethau arbed a darpariaethau trosiannol: digolledu am welliannau**

**12.**—(1) Mae adran 99B(**3**) o Ddeddf 1985 (personau sy'n gymwys ar gyfer digolllediad) a Rheoliadau 1994 yn parhau i gael effaith, fel yr oeddent yn cael effaith yn union cyn y diwrnod penodedig, mewn perthynas â gwelliannau a wnaed gan denant o dan denantiaeth ddiogel o dan adran 99A o Ddeddf 1985 a ddaeth i ben cyn y diwrnod penodedig (pa un a wnaed cais am ddigolllediad cyn neu ar ôl y diwrnod penodedig).

(2) Heb leihau effaith paragraff (1), pan fo cais am gydsyniad i wella wedi ei wneud gan y tenant cyn y diwrnod penodedig (pa un a roddir cydsyniad o'r fath cyn neu ar ôl y diwrnod hwnnw), mae adran 99B o Ddeddf 1985 a Rheoliadau 1994 yn parhau i gael effaith ar ôl y diwrnod penodedig mewn perthynas â chontract diogel wedi ei drosi, ond fel pe bai—

(a) cyfeiriad at gontract diogel yn dod i ben yn gyfeiriad at gontract diogel wedi ei drosi yn dod i ben ar ôl y diwrnod penodedig,

(b) adran 99B(2)(b) i (f) a (3) o Ddeddf 1985 wedi ei hepgor (a Rheoliadau 1994 wedi eu dehongli yn unol â hynny), ac

(**1**) Diwygiwyd adran 97 gan adran 118 o Ddeddf Tai a Chynllunio 2016 (p. 22) a pharagraffau 2 a 12 o Atodlen 7 iddi ac adran 155 o Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p. 20).

(**2**) Diwygiwyd adran 100 gan adran 194 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p. 42) a pharagraff 66 o Atodlen 11 iddi, adrannau 103 a 147 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 (p. 53) a pharagraff 4(2) o Atodlen 1 a Rhan 1 o Atodlen 3 iddi ac erthyglau 12 a 15 o Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002 (O.S. 2002/1860) a pharagraff 2 o Atodlen 4 ac Atodlen 6 iddo.

(**3**) Mewnosodwyd adran 99B gan adran 122 o Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 (p. 28) ac fe'i diwygiwyd gan adrannau 81 a 222 o Ddeddf Tai 1996 (p. 52) a pharagraff 13 o Atodlen 18 iddi, adrannau 81 a 261 o Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004 (p. 33) a pharagraff 25 o Atodlen 8, paragraff 19 o Ran 2 o Atodlen 9 ac Atodlen 30 iddi ac adran 66 o Ddeddf Cyfraith Teulu 1996 (p. 27) a pharagraff 54 o Atodlen 8 iddi.

(c) rheoliad 3(2) o Reoliadau 1994 wedi ei hepgor.

(3) Ond nid yw paragraff (2) yn gymwys pan fo'r contract diogel wedi ei drosi yn dod i ben ar ôl y diwrnod penodedig oherwydd—

(a) bod y Llys yn gwneud gorchymyn adennill meddiant ar un neu ragor o'r seiliau yn adran 157 (tor contract) neu 160 (seiliau rheoli ystad) o Ddeddf 2016, neu

(b) bod y contract yn peidio â bod yn gontract diogel yn rhinwedd adran 116 o Ddeddf 2016 (gorchymyn sy'n arddodi contract safonol cyfnodol oherwydd ymddygiad gwaharddedig).

**Darpariaethau trosiannol: cynllun hawl i atgyweirio**

**13.**—(1) Pan fo'r tenant, cyn y diwrnod penodedig, wedi cyflwyno hysbysiad yn hawlio'r hawl i atgyweirio o dan baragraff 3 o'r Atodlen i Reoliadau 1985 (hysbysiad tenant yn hawlio'r hawl i atgyweirio), mae Rheoliadau 1985 yn parhau i gael effaith ar ôl y diwrnod penodedig, fel yr oeddent yn cael effaith yn union cyn y diwrnod hwnnw yn ddarostyngedig i baragraff (2).

(2) Pan fo'n briodol i roi effaith i'r rheoliad hwn, mae Rheoliadau 1985 i'w darllen fel pe bai "or contract holder (within the meaning given by section 7 (see also section 48) of the Renting Homes (Wales) Act 2016) under a secure contract (within the meaning given by section 8 of the Renting Homes (Wales) Act 2016)" wedi ei fewnosod ar ôl "secure tenant", ym mhob lle y mae'n digwydd.